Cyllid & Tollau EM

# Nodiadau: Ffurflen Dreth Fer

Blwyddyn dreth 6 Ebrill 2021 i 5 Ebrill 2022 (2021–22)

# Cymorth i lenwi eich Ffurflen Dreth

Bydd y nodiadau hyn yn eich helpu i lenwi eich Ffurflen Dreth Fer bapur. Fel arall, pam na ewch ati i gyflwyno ar-lein? Drwy anfon ar-lein cewch y manteision canlynol:

- mae'n wasanaeth cyfleus sydd ar gael 24 awr
- mae'n gyflym, yn hawdd ac yn ddiogel
- mae gennych 3 mis ychwanegol i'w hanfon atom
- os dymunwch, gallwch gadw eich manylion a'i gorffen nes ymlaen
- caiff eich treth ei chyfrifo'n awtomatig ar eich rhan
- os oes ad-daliad yn ddyledus i chi, fe'i cewch yn gyflymach
- gallwch gael negeseuon drwy eich cyfrif ar-lein

ℹ I gael rhagor o wybodaeth am Hunanasesiad Ar-lein ewch i www.gov.uk/ffurflenni-treth-hunanasesiad

Os nad ydych wedi llenwi Ffurflen Dreth ar-lein cyn hyn, ewch i www.gov.uk/cyflwyno-ch-ffurflen-dreth-hunanasesiad-ar-lein.

## Dyddiadau cau a chosbau ar gyfer Ffurflenni Treth

Os ydych:

- am lenwi Ffurflen Dreth ar bapur, mae'n rhaid i chi ei hanfon atom erbyn 31 Hydref 2022
- yn penderfynu llenwi eich Ffurflen Dreth ar-lein, neu os ydych yn methu'r dyddiad cau ar gyfer y Ffurflen Dreth ar bapur, mae'n rhaid i chi gei chyflwyno ar-lein erbyn 31 Ionawr 2023. Fodd bynnag, os ydych am i ni gasglu'r dreth sydd arnoch drwy eich cyflog neu bensiwn, rhaid i chi gyflwyno ar-lein erbyn 30 Rhagfyr 2022

Y dyddiad cau ar gyfer talu'ch bil treth, neu unrhyw Yswiriant Gwladol Dosbarth 2, yw 31 Ionawr 2023.

Os nad yw eich Ffurflen Dreth yn dod i law erbyn y dyddiadau cau, bydd rhaid i chi dalu cosb o £100 – hyd yn oed os nad oes arnoch dreth.

I gael rhagor o wybodaeth am gosbau, ewch i www.gov.uk/ffurflenni-treth-hunanasesiad/cosbau

## Gwirio a oes yn dal angen i chi lenwi Ffurflen Dreth

Os nad ydych yn credu bod angen i chi lenwi Ffurflen Dreth ar gyfer y flwyddyn hon, ewch i www.gov.uk/gwirio-angen-ffurflen-dreth

Mae'r lwfansau masnachu ac eiddo yn rhoi eithriad o dreth ar gyfer y ddau incwm a restrir isod (oni bai bod unrhyw ran o'r incwm yn deillio o barti cysylltiedig):

- derbynebau o hunangyflogaeth (gan gynnwys enillion achlysurol a chomisiwn nid o gyflogaeth) o £1,000 neu lai
- incwm o eiddo o £1,000 neu lai

Mae'r incwm yn deillio o barti cysylltiedig os yw oddi wrth:

- eich cyflogwr (neu gyflogwr eich priod neu'ch partner sifil)
- partneriaeth pan ydych chi neu rywun sy'n gysylltiedig â chi'n bartner
- cwmni caeedig yr ydych yn berchen arno, neu y mae eraill sy'n gysylltiedig â chi'n berchen arno, neu yr ydych yn berchen arno ar y cyd

ℹ I gael rhagor o wybodaeth am y lwfans masnachu ac eiddo, ewch i www.gov.uk/guidance/tax-free-allowances-on-property-and-trading-income

Os yw'ch derbynebau o hunangyflogaeth (gan gynnwys enillion achlysurol a chomisiwn nid o gyflogaeth) yn £1,000 neu lai, ac os yw'ch incwm o eiddo yn £1,000 neu lai, yna ni fydd angen rhoi gwybod am yr incwm hwn ar Ffurflen Dreth – darllenwch y nodiadau ar gyfer blwch box 3.6 os yw'r incwm yn deillio o hunangyflogaeth. Mae'n rhaid i chi barhau i lenwi'r adran 'Hunangyflogaeth' neu'r adran incwm o eiddo yn y drefn honno os yw unrhyw un o'ch derbynebau o hunangyflogaeth neu incwm o eiddo yn deillio o barti cysylltieidg, neu os cawsoch grant y Cynllun Cymhorthdal Incwm Hunangyflogaeth (SEISS), gan na allwch ddefnyddio'r lwfans yn erbyn y math hwn o incwm.

Efallai y bydd dal angen i chi lenwi Ffurflen Dreth ar gyfer mathau eraill o incwm. Os felly, llenwch y Ffurflen Dreth hon gan adael yr adran incwm o hunangyflogaeth yn wag a/neu adael blychau 7.1 yn wag a/neu adael yr adran eiddo yn y DU yn wag (mae yna rai eithriadau - darllenwch y nodiadau ar gyfer blychau 3.6 a 7.1 a blwch 6.1).

### Taliadau drwy gynllun cymorth yn sgil coronafeirws

Mae'n rhaid i chi gynnwys symiau unrhyw daliadau trethadwy a gawsoch drwy gynllun cymorth yn sgil coronafeirws, yn amodol ar yr arweiniad pellach yn y nodiadau hyn.

Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Cynllun Cymhorthdal Incwm Hunangyflogaeth (SEISS)
- Cynllun Cadw Swyddi yn sgil Coronafeirws (CJRS)
- Cynllun Bwyta Allan i Helpu Allan
- unrhyw gynllun cymorth perthnasol arall gan CThEM yn sgil coronafeirws
- taliadau yr oedd gennych hawl i'w cael gan awdurdodau lleol neu weinyddiaethau datganoledig

ℹ I gael rhagor o wybodaeth am y cynlluniau cymorth yn sgil coronafeirws, ewch i ewch i www.gov.uk/guidance/reporting-coronavirus-covid-19-grants-and-support-payments.cy

Os oeddech yn hunangyflogedig, dylech gynnwys grantiau SEISS ym mlwch 3.10A ac unrhyw daliadau cymorth eraill yn sgil coronafeirws ym mlwch 3.6. Ar gyfer eiddo yn y DU, dylech gynnwys pob taliad drwy gynllun cymorth yn sgil coronafeirws ym mlwch 6.1.

Os cawsoch daliad nad oedd gennych hawl iddo – a hynny drwy SEISS, CJRS, y Cynllun Bwyta Allan i Helpu Allan, neu unrhyw gynllun cymorth perthnasol arall gan CThEM yn sgil coronafeirws – a'ch bod heb ei ad-dalu'n wirfoddol i CThEM neu'ch bod heb gael asesiad oddi wrth swyddog CThEM mewn perthynas â'r taliad a hawliwyd yn anghywir, ni allwch ddefnyddio'r Ffurflen Dreth Fer. Mae'n rhaid i chi lenwi Ffurflen Dreth Lawn, a nodi'r symiau a hawliwyd yn anghywir ar dudalen TR 5 y brif Ffurflen Dreth (SA100). Fel arall, gallwch gyflwyno'ch Ffurflen Dreth ar-lein.

I wirio a oes yn dal angen i chi lenwi Ffurflen Dreth, ewch i www.gov.uk/gwirio-angen-ffurflen-dreth

Os nad oes angen i chi lenwi Ffurflen Dreth, mae'n rhaid i chi gysylltu â ni erbyn 31 Ionawr 2023 er mwyn osgoi cosbau.

## Cyn i chi ddechrau

Efallai y byddwch angen y dogfennau canlynol i'ch helpu i lenwi'r Ffurflen Dreth.

- eich ffurflenni P60, 'Tystysgrif Diwedd Blwyddyn', P11D, 'Treuliau neu fuddiannau' neu P45, 'Manylion cyflogai'n gadael gwaith', slipiau cyflog a'ch P2, 'Hysbysiad Cod TWE'
- os ydych yn gweithio i chi eich hun, eich cyfrif elw a cholled neu eich cofnodion busnes
- eich cyfriflenni banc, llyfrau cyfrif cymdeithas adeiladu, bonion difidend neu atodlenni buddsoddiadau drwy frocer
- tystysgrifau cyfraniadau pensiwn personol

Peidiwch ag anfon derbynebau, cyfrifon nac unrhyw waith papur arall gyda'ch Ffurflen Dreth oni fyddwn yn gofyn amdanynt. Os gwnewch hynny, bydd yn cymryd yn hirach i ddelio â'ch Ffurflen Dreth a gallai olygu oedi os bydd ad-daliad yn ddyledus.

Gall yr wybodaeth a roddwch ar eich Ffurflen Dreth effeithio ar eich cod treth TWE os ydym yn ei chael cyn 1 Ionawr 2023.

Os ydych yn disgwyl i'r symiau neu'r hawliadau ym mlychau 2.5, 8.1 (llai blwch 8.2), 9.1, 9.2, 10.1 ac 11.1 newid yn ystod blwyddyn dreth 2022 i 2023, mae'n rhaid i chi roi gwybod i Gyllid a Thollau EM (CThEM) er mwyn sicrhau ein bod yn diweddaru eich cod treth TWE presennol.

ℹ I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/codau-treth/diweddaru-eich-cod-treth

## Gwiriwch mai hon yw'r Ffurflen Dreth iawn ar eich cyfer

Cyn i chi lenwi'r Ffurflen Dreth hon, gwnewch yn siŵr mai dyma'r un iawn i chi. Os bu newid yn eich amgylchiadau yn ystod y flwyddyn dreth 6 Ebrill 2021 hyd at 5 Ebrill 2022, efallai y bydd rhaid i chi lenwi Ffurflen Dreth lawn.

Gallwch ddefnyddio'r Ffurflen Dreth Fer os:

- oeddech yn gyflogai cyflogedig neu'n cael taliadau treuliau neu fuddiannau trethadwy
- oeddech yn hunangyflogedig gyda throsiant blynyddol a oedd yn llai nag £85,000
- oeddech yn ad-dalu eich Benthyciad Myfyriwr a'ch/neu'ch Benthyciad Ôl-raddedig
- cawsoch bensiwn y DU (y Wladwriaeth, galwedigaethol neu breifat) neu flwydd-dal ymddeol
- cawsoch incwm sy'n deillio o flwydd-dal bywyd a brynwyd
- cawsoch fudd-daliadau'r Wladwriaeth trethadwy – er enghraifft, Lwfans Ceisio Gwaith
- cawsoch lai nag £85,000 o incwm drwy osod eiddo neu osod ystafell yn eich cartref eich hun
- cawsoch incwm o gynilion yn y DU fel llog gan fanc neu gymdeithas adeiladu
- cawsoch ddifidendau cwmni (gan gynnwys difidendau tramor o hyd at £2,000)
- ydych am hawlio rhyddhad ar gyfer taliadau Rhodd Cymorth

## Pryd i lenwi Ffurflen Dreth lawn

Bydd angen i chi lenwi Ffurflen Dreth lawn os:

- oeddech yn gyfarwyddwr cwmni cyflogedig neu mewn partneriaeth
- cawsoch incwm o gyflogaeth yn dod o du fewn i drefniadau gweithio oddi ar y gyflogres
- oeddech yn gyflogai sydd am hawlio lwfansau cyfalaf
- cawsoch gyfandaliad gan eich cyflogwr (neu gyn gyflogwr) oni bai ei fod yn dâl diswyddo a oedd o dan yr eithriad o £30,000

- cawsoch gyfandaliad Pensiwn y Wladwriaeth
- oes gennych gynilion pensiwn a bod yn rhaid i chi dalu treth ar unrhyw daliadau anawdurdodedig, neu oherwydd eich bod wedi mynd dros eich Lwfans Blynyddol neu'ch Lwfans Oes
- gwnaethoch drosglwyddo eich cynilion pensiwn i gynllun pensiwn tramor cydnabyddedig cymwys (CPTCC) ac roedd y trosglwyddiad yn agored i dâl trosglwyddo dramor
- ydych am drosglwyddo rhan o'ch lwfans personol a elwir y Lwfans Priodasol
- oes rhaid i chi dalu'r Tâl Incwm Uchel Budd-dal Plant
- oeddech yn hunangyflogedig ac
  - roedd gennych fwy nag un busnes
  - roedd eich trosiant blynyddol yn £85,000 neu'n fwy
  - gwnaethoch newid y dyddiad cyfrifyddu
  - nid yw eich "cyfnod sail" yr un peth â'ch cyfnod cyfrifyddu, neu
  - eich bod am wrthbwyso eich colledion busnes
  - mae angen i chi addasu unrhyw elw sy'n agored i gyfraniadau Yswiriant Gwladol (CYG) Dosbarth 4, megis cael taliadau cymorth yn sgil hunanynysu oherwydd coronafeirws
  - fel gofalwr maeth neu ofalwr bywydau a rennir rydych am fanteisio ar ryddhad gofal cymwys
  - mae incwm gennych sydd wedi'i drin fel elw gan yr incwm masnachu a roddir trwy reolau trydydd parti
  - rydych am hawlio'r Lwfans Strwythurau ac Adeiladau
  - rydych am hawlio Lwfans Strwythurau ac Adeiladau Porthladdoedd Rhydd
  - rydych am hawlio lwfans blwyddyn gyntaf o 100% ar gyfer pwyntiau gwefru
  - rydych am hawlio lwfans blwyddyn gyntaf o 100% ar gyfer ceir sydd ag allyriadau sero neu sy'n drydanol
- cawsoch incwm o gyfranddaliadau neu warantau oddi wrth eich cyflogwr nad ydych wedi talu digon o dreth arno
- cawsoch incwm o eiddo yn y DU o £85,000 neu fwy, incwm o lety gwyliau wedi'i ddodrefnu, neu rydych am hawlio lwfansau cyfalaf (gan gynnwys y Lwfans Strwythurau ac Adeiladau, lwfans blwyddyn gyntaf o 100% ar gyfer pwyntiau gwefru neu lwfansau blwyddyn gyntaf o 100% ar gyfer ceir sydd ag allyriadau sero, yn cynnwys ceir trydanol.)
- gwnaethoch hawlio taliadau drwy gynllun cymorth yn sgil coronafeirws yn anghywir a bod dal angen i chi roi gwybod i CThEM am y symiau
- cawsoch Ddosraniadau Incwm o Eiddo (PIDs) o Ymddiriedolaethau Buddsoddi mewn Eiddo Diriaethol yn y DU (UK REITs) a Chronfeydd Buddsoddi mewn Eiddo Awdurdodedig (PAIFs), gan gynnwys PIDs a dalwyd drwy ddyroddi difidendau stoc
- cawsoch enillion digwyddiad trethadwy fel polisi yswiriant bywyd a gwnaethoch brynu blwydd-daliadau
- cawsoch incwm o dramor (oni bai ei fod yn llai na £2,000 o ddifidendau tramor)
- cawsoch incwm o ystâd person ymadawedig neu cawsoch incwm, buddiannau neu enillion o ymddiriedolaeth neu setliad
- cawsoch fudd o ddefnyddio eiddo roeddech gynt yn berchennog arno ('asedion cyn-berchen')
- nad oeddech yn preswylio yn y DU
- oeddech yn rhan o'r rhaglen ar gyfer Rheoli Diffygdalwyr Difrifol yn ystod unrhyw ran o'r flwyddyn

I gael ffurflenni Hunanasesiad a thaflenni cymorth, ewch i www.gov.uk/ffurflenni-a-thaflenni-hunanasesiad

ℹ I gael rhagor o wybodaeth am Fudd-dal Plant ewch i www.gov.uk/tal-treth-budd-dal-plant

I gael help gyda rhyddhad gofal cymwys, ewch i www.gov.uk a chwiliwch am HS236

## Eich manylion personol

### 1.1 Eich dyddiad geni

Os na fyddwch yn cynnwys eich dyddiad geni, efallai na chewch yr holl lwfansau y mae gennych hawl iddynt.

### 1.2 Eich enw a'ch chyfeiriad

Os yw'r manylion yn wahanol i'r hyn sydd wedi'i argraffu ar frig eich Ffurflen Dreth, ysgrifennwch y manylion cywir o dan y rhai anghywir, a rhowch y dyddiad y gwnaethoch newid cyfeiriad ym mlwch 1.2

Mae'n bwysig bod eich cyfeiriad diweddaraf gan CThEM, er mwyn gwneud yn siŵr eich bod yn talu'r swm cywir o Dreth Incwm. Byddwch yn talu'r gyfradd briodol o Dreth Incwm ar gyfer y flwyddyn yn dibynnu ar p'un a oeddech yn byw yng Nghymru, yr Alban neu weddill DU am fwyafrif y flwyddyn dreth.

ℹ I gael gwybodaeth am gyfraddau Treth Incwm yn yr Alban a gweddill y DU, ewch i www.gov.uk/cyfraddau-treth-incwm

I gael gwybodaeth am gyfraddau Treth Incwm yng Nghymru, ewch i www.gov.uk/treth-incwm-cymru

### 1.4 Eich rhif Yswiriant Gwladol

Mae eich rhif Yswiriant Gwladol yn cynnwys llythrennau a rhifau, gweler yr enghraifft isod.

Os nad yw ar frig eich Ffurflen Dreth bydd ar gael ar:

- slip cyflog, P45 neu eich P60 am y flwyddyn
- P2, 'Hysbysiad Cod TWE'
- unrhyw lythyr oddi wrthym ni neu'r Adran Gwaith a Phensiynau

**Ad-daliadau Benthyciadau Myfyriwr a Benthyciadau Ôl-raddedig**

Unwaith y bydd y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr (SLC) yn ysgrifennu i roi gwybod i chi y dylech ddechrau ad-dalu eich Benthyciad ar sail Incwm, yna mae'n rhaid i chi lenwi'r blychau Benthyciad Myfyriwr a/neu flychau Benthyciadau Ôl-raddedig.

Defnyddiwn y math o fenthyciad a/neu'r math o gynllun sydd gan yr SLC er mwyn cyfrifo unrhyw ad-daliad Benthyciad Myfyriwr a/neu Fenthyciad Ôl-raddedig.

**1.5 Os cawsoch wybod gan y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr bod eich ad-daliad o fenthyciad yn ddyledus cyn 6 Ebrill 2022**

Rhowch 'X' ym mlwch 1.5 os yw'r canlynol yn berthnasol:

- rydych wedi cael Benthyciad Myfyriwr a/neu Fenthyciad Ôl-raddedig am gwrs a adawsoch cyn mis Ebrill 2021
- rhoddodd y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr wybod i chi eich bod i ddechrau ad-dalu Benthyciad Myfyriwr a/neu Fenthyciad Ôl-raddedig ar gyfer 2021 i 2022

**1.6 Os yw eich cyflogwr wedi didynnu ad-daliadau Benthyciadau Myfyriwr**

Rhowch gyfanswm yr holl ddidyniadau Benthyciad Myfyriwr a gymerwyd o bob cyflogaeth TWE ar gyfer 2021 i 2022. Bydd yr wybodaeth hon i'w gweld ar eich P60 a'ch slipiau cyflog.

**1.7 Os yw eich cyflogwr wedi didynnu ad-daliadau Benthyciad Ôl-raddedig**

Rhowch gyfanswm yr holl ddidyniadau Benthyciad Ôl-raddedig a gymerwyd o bob cyflogaeth TWE ar gyfer 2021 i 2022. Bydd yr wybodaeth hon i'w gweld ar eich P60 a'ch slipiau cyflog.

ⓘ I gael rhagor o wybodaeth am ad-dalu'ch Benthyciad Myfyriwr, ewch i www.gov.uk/guidance/tell-hmrc-about-a-student-loan-in-your-tax-return.cy ac www.gov.uk/ad-dalu-eich-benthyciad-myfyrwyr

## Incwm cyflogaeth

Dyma eich incwm o'ch holl swyddi TWE. Peidiwch â llenwi'r adran hon os na wnaethoch weithio i gyflogwr sy'n didynnu treth trwy TWE.

**2.4 Buddiannau a threuliau trethadwy a gafwyd**

Os yw eich cyflogwr wedi talu'ch buddiannau a threuliau 'drwy'r gyflogres' (golyga hyn bod treth wedi'i didynnu o'ch cyflog a'i chynnwys yn eich P60) peidiwch â'u cynnwys ym mlwch 2.4.

Fel arall, bydd eich cyflogwr yn rhoi manylion o'ch buddiannau a threuliau i chi ar ffurflen P11D.

Gall buddiannau cynnwys y canlynol:

- ceir cwmni a thanwydd
- benthyciadau di-log a llog isel
- yswiriant meddygol a deintyddol preifat

Os na fyddwch yn cael copi o'ch P11D erbyn 6 Gorffennaf 2022, cysylltwch â'ch cyflogwr.

Os ydych yn defnyddio eich car neu'ch fan eich hun ar gyfer gwaith (heb gynnwys y daith i'r gwaith ac oddi yno), peidiwch â chynnwys y ffigurau yma. Rhowch y symiau ym mlwch 2.5.

Defnyddiwch eich P11D i ddod o hyd i'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ar gyfer blwch 2.4 am:

- ceir a faniau'r cwmni a thanwydd – yn adrannau F a G
- yswiriant meddygol a deintyddol preifat – yn adran I
- talebau, cardiau credyd a lwfans milltiroedd gormodol – yn adrannau C ac E
- llety a ddarperir gan eich cyflogwr – yn adran D
- taliadau treuliau trethadwy a gafwyd, a thaliadau mantoli – yn adran N
- buddiannau eraill (gan gynnwys benthyciadau di-log a llog isel) – ym mlwch 15

Os ydych wedi cael cymorth ariannol drwy'r cynllun Taliadau Cymorth Profi ac Olrhain, dylech gynnwys y swm a gafwyd ym mlwch 2.4.

**2.5 Treuliau caniataol**

Gallwch hawlio dim ond am y costau nas ad-dalwyd y bu'n rhaid i chi eu talu er mwyn gwneud eich swydd, er enghraifft:

- costau teithio, yn cynnwys prydau bwyd a llety mewn perthynas â'r daith – peidiwch â chynnwys eich costau cymudo arferol
- costau defnyddio eich car, beic modur neu feic eich hunan
- treuliau busnes, megis galwadau ffôn y busnes

ⓘ I gael rhagor o wybodaeth am dreuliau, ewch i www.gov.uk/rhyddhad-treth-ar-gyfer-cyflogeion

**2.6 Cyfeirnod treth TWE eich prif gyflogwr neu eich cyflogwr diwethaf**

Bydd hyn ar eich P2, 'Hysbysiad Cod TWE', P45 neu eich P60 am y flwyddyn.

## Incwm o hunangyflogaeth

Nid oes yn rhaid i chi roi gwybod am yr incwm hwn os oeddech yn gweithio i chi'ch hun, neu os oeddech yn isgontractwr yn gweithio yn y diwydiant adeiladu, ac mae'ch trosiant (gan gynnwys enillion achlysurol a chomisiwn nid o gyflogaeth) yn £1,000 neu lai oni bai ei fod yn cynnwys grant y Cynllun Cymhorthdal Incwm Hunangyflogaeth. Darllenwch y nodiadau ar dudalen 1 'Gwirio a oes yn dal angen i chi lenwi Ffurflen Dreth'.

**3.4 Y dyddiad y caewyd eich llyfrau**

Dylech gau eich llyfrau ar yr un dyddiad bob blwyddyn (eich dyddiad diwedd blwyddyn) tan i chi orffen masnachu. Os gwnaethoch orffen masnachu rhwng 6 Ebrill 2021 a 5 Ebrill 2022, bydd angen i chi roi'r dyddiad hwnnw ym mlwch 3.4 ac nid eich dyddiad diwedd blwyddyn.

Os buoch yn gweithio i chi eich hun am lai na 12 mis ar 5 Ebrill 2022, dewiswch p'un ai i gau eich llyfrau ar ddiwedd y flwyddyn dreth (5 Ebrill) neu ddyddiad arall. Pa bynnag ddyddiad a ddewiswch, byddwch yn talu treth ar unrhyw elw hyd at 5 Ebrill 2022. Defnyddiwch y ffurflen hon dim ond os mai 5 Ebrill 2022 yw'ch dyddiad diwedd blwyddyn.

Os dechreuoch fasnachu rhwng 6 Ebrill 2020 a 5 Ebrill 2021 gan gau eich llyfrau am y tro cyntaf ar 5 Ebrill 2021, rhowch 05 04 2022 ym mlwch 3.4. Os gwnaethoch gau eich llyfrau cyntaf fel eu bod am gyfnod o 12 mis (ar ôl 5 Ebrill 2021), rhowch y dyddiad hwnnw ym mlwch 3.4. Os nad oedd eich llyfrau cyntaf am gyfnod o 12 mis, rhaid i chi gyflwyno Ffurflen Dreth lawn.

### Enghraifft 1

Dechreuodd John ei fusnes plymio ar 6 Hydref 2020. Gan fod y flwyddyn dreth yn dod i ben ar 5 Ebrill, mae'n penderfynu ei bod yn haws defnyddio 5 Ebrill fel ei ddyddiad diwedd blwyddyn. Paratôdd ei gyfrifon cyntaf am gyfnod o 6 mis a llenwi Ffurflen Dreth y llynedd hyd at 5 Ebrill 2021. Eleni bydd ei gyfrifon am y flwyddyn lawn, felly, bydd yn rhoi 05 04 2022 ym mlwch 3.4.

### Enghraifft 2

Gwnaeth Annest hefyd ddechrau ei busnes trin gwallt symudol ar 6 Hydref 2020. Penderfynodd baratoi ei chyfrifon cyntaf am 12 mis hyd at 5 Hydref 2021. Roedd dyddiad diwedd blwyddyn cyntaf Annest ar ôl 5 Ebrill 2021, felly cyflwynodd Ffurflen Dreth lawn y llynedd. Bydd Annest yn llenwi Ffurflen Dreth Fer eleni a rhoi 05 10 2021 ym mlwch 3.4. Bydd yn defnyddio 5 Hydref fel ei dyddiad diwedd blwyddyn bob blwyddyn.

## 3.5 Y sail arian parod

Rhowch 'X' ym mlwch 3.5 os gwnaethoch ddefnyddio'r sail arian parod. Mae'r sail arian parod yn ffordd symlach o gyfrifo'ch elw neu golledion busnes. Rydych yn ychwanegu'ch holl incwm busnes a gafwyd at ei gilydd ac yn tynnu i ffwrdd unrhyw dreuliau caniataol a dalwyd yn ystod eich cyfnod cyfrifyddu. Peidiwch â chynnwys arian sydd arnoch neu sy'n ddyledus i chi ar eich dyddiad diwedd blwyddyn.

Os ydych yn isgontractiwr yn y Diwydiant Adeiladu, eich incwm yw'r swm llawn cyn didyniadau contractwr.

Ni all bob busnes ddefnyddio'r sail arian parod.

ⓘ I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/simpler-income-tax-cash-basis

## 3.6 Trosiant – Peidiwch â chynnwys grantiau o'r Cynllun Cymhorthdal Incwm Hunangyflogaeth (SEISS) yn y blwch hwn - gweler blwch 3.10A

Gallwch ddefnyddio'r ffurflen hon dim ond os oedd eich trosiant blynyddol yn llai na £85,000 (neu y byddai wedi bod petaech chi wedi masnachu am flwyddyn gyfan). Os oedd eich trosiant blynyddol yn £85,000 neu fwy, mae'n rhaid i chi lenwi Ffurflen Dreth lawn.

Trosiant yw cyfanswm yr arian a enillwyd (neu, os defnyddiwyd y sail arian parod, yr arian a gafwyd) gan eich busnes neu eich gwaith hunangyflogedig, cyn didynnu unrhyw dreuliau.

Mae hyn yn cynnwys:

- pob taliad am wasanaeth neu waith a ddarparwyd gan eich busnes neu nwyddau a werthwyd – mewn arian, drwy gerdyn, siec neu unrhyw ddull arall (gan gynnwys arian o waith adeiladu – defnyddiwch y ffigur cyn didyniadau contractwr)
- cildyrnau, ffioedd a chomisiynau
- unrhyw daliadau 'mewn nwyddau' – hynny yw, nas talwyd â siec neu mewn arian – am waith a wnaethpwyd neu nwyddau a werthwyd
- arian sy'n ddyledus i chi am waith a wnaethpwyd eisoes (oni bai eich bod yn defnyddio'r sail arian parod)

Os ydych yn defnyddio'r sail arian parod, dylech ond cynnwys yr incwm a gafwyd gennych mewn gwirionedd.

ⓘ I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk a chwiliwch am HS222

Mae taliadau drwy gynllun cymorth yn sgil coronafeirws yn drethadwy, ac maent yn cynnwys taliadau drwy'r Cynllun Cadw Swyddi yn sgil Coronafeirws (CJRS), y Cynllun Bwyta Allan i Helpu Allan, unrhyw gynllun cymorth perthnasol arall gan CThEM yn sgil coronafeirws, a thaliadau yr oedd gennych hawl i'w cael gan awdurdodau lleol neu weinyddiaethau datganoledig.

Os cawsoch daliadau drwy gynllun cymorth yn sgil coronafeirws, dylech gynnwys ym mlwch 3.6 y swm a gawsoch. Peidiwch â chynnwys ym mlwch 3.6 daliadau drwy'r Cynllun Cymhorthdal Incwm Hunangyflogaeth (SEISS) – gweler blwch 3.10A.

Os ydych wedi cael asesiad oddi wrth swyddog CThEM mewn perthynas â thaliad drwy gynllun cymorth yn sgil coronafeirws a hawliwyd yn anghywir, dylech gynnwys ym mlwch 3.6 y swm a gadwyd gennych yn unig.

Peidiwch â chynnwys ym mlwch 3.6 unrhyw swm sydd wedi'i asesu ac sy'n arwain at ad-dalu taliadau drwy gynlluniau cymorth yn sgil coronafeirws nad oedd gennych hawl iddynt.

Os cawsoch daliadau drwy'r cynllun Bwyta Allan i Helpu Allan a'ch bod wedi'ch cofrestru ar gyfer TAW, dylech hepgor TAW o'r swm rydych yn ei gynnwys ym mlwch 3.6.

Peidiwch â chynnwys taliadau CJRS a gafwyd fel cyflogai tra oeddech ar ffyrlo.

Os cawsoch daliad nad oedd gennych hawl iddo – a hynny drwy CJRS, y Cynllun Bwyta Allan i Helpu Allan, neu unrhyw gynllun cymorth perthnasol arall gan CThEM yn sgil coronafeirws – a'ch bod heb ei ad-dalu'n wirfoddol i CThEM neu'ch bod heb gael asesiad oddi wrth swyddog CThEM mewn perthynas â'r taliad a hawliwyd yn anghywir, mae'n rhaid i chi lenwi Ffurflen Dreth Lawn. Darllenwch y nodiadau ar dudalen 2.

Os oedd eich trosiant yn £1,000 neu lai, darllenwch y nodiadau ar dudalen 1 ‘Gwirio a oes yn dal angen i chi lenwi Ffurflen Dreth’ cyn i chi lenwi’r blwch hwn, oni bai bod y canlynol yn berthnasol:

- mae gennych dreuliau a ganiateir ar gyfer treth sy’n uwch na’ch trosiant ac rydych yn dymuno bod â’r gallu i hawlio rhyddhad am y golled yn erbyn elw busnes yn y dyfodol. Os felly, rhowch y trosiant ym mlwch 3.6, eich treuliau a ganiateir ar gyfer treth ym mlwch 3.7, eich lwfansau cyfalaf ym mlwch 3.8 a’r golled ym mlwch 3.10
- rydych yn disgwyl i’ch trosiant fod yn fwy na £1,000 yn y flwyddyn dreth nesaf. Os felly, gallwch lenwi blwch 3.1
- mae gennych incwm arall o enillion achlysurol a chomisiwn (nid o gyflogaeth) i roi gwybod amdano ym mlwch 7.1, a phan y’i hychwanegir at eich trosiant mae’r cyfanswm dros £1,000. Os felly, llenwch yr adran ‘Incwm hunangyflogedig’ a blwch 7.1 yn unol â’r nodiadau
- rydych am dalu cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 2 yn wirfoddol er mwyn cronni hawl i fudd-daliadau cyfraniadol megis Pensiwn y Wladwriaeth. Os felly, rhowch ‘X’ ym mlwch 3.12
- rydych am gadw’ch cofnod o hunangyflogaeth, er enghraifft er mwyn cefnogi cais am Lwfans Mamolaeth. Os felly, llenwch flwch 3.1
- hoffech hawlio Gofal Plant sy’n Rhydd o Dreth ar sail eich cofnod o incwm o hunangyflogaeth. Os felly, llenwch flwch 3.1, rhowch eich trosiant ym mlwch 3.6, rhowch yr un ffigur ym mlwch 3.6A a sero ym mlwch 3.9
- roeddech yn is-gontractwr, a didynnwyd treth o dan Gynllun y Diwydiant Adeiladu (CIS). Os felly, rhowch y dreth a ddidynnwyd ym mlwch 3.14

ⓘ I gael rhagor o wybodaeth am y lwfans masnachu ac eiddo, ewch i www.gov.uk/guidance/tax-free-allowances-on-property-and-trading-income

### 3.6A Lwfans incwm masnachu

Gallwch ddewis p’un a ddylid tynnu’r lwfans incwm masnachu ai peidio, ond efallai y dewiswch wneud hynny os yw’ch treuliau busnes a’ch lwfansau cyfalaf a ganiateir yn llai na £1,000. Ni allwch wneud hyn os yw’ch derbynebau’n deillio o barti cysylltiedig (gweler tudalen 1 ‘Gwirio a oes yn dal angen i chi lenwi Ffurflen Dreth’).

Gellir rhannu’r lwfans incwm masnachu rhwng eich incwm o hunangyflogaeth ac incwm arall o enillion achlysurol a chomisiwn (nid o gyflogaeth) – darllenwch y nodiadau ar gyfer blwch 7.1).

Os ydych yn hawlio lwfans incwm masnachu, ni allwch ddidynnu unrhyw dreuliau neu lwfansau cyfalaf. Ewch yn syth i flwch 3.9, peidiwch â llenwi blychau 3.7 na 3.8.

Os ydych am gyfrifo’ch elw trethadwy trwy ddidynnu’r lwfans incwm masnachu o’ch trosiant yn hytrach na didynnu’ch treuliau busnes a lwfansau cyfalaf a ganiateir, rhowch swm y lwfans incwm masnachu a ddefnyddir (hyd at £1,000) ym mlwch 3.6A. Ni all swm y lwfans incwm masnachu a ddefnyddir fod yn fwy na’ch trosiant ym mlwch 3.6.

### 3.7 Treuliau caniataol at ddibenion treth

Mae treuliau’n amrywio o fusnes i fusnes. Mae treuliau a ganiateir yn cynnwys costau prynu stoc, cyflogau (yn cynnwys y rhai hynny a ariannwyd gan daliadau o dan y Cynllun Cadw Swyddi yn sgil Coronafeirws), rhent, treth gyngor, goleuo, gwresogi, costau postio, galwadau ffôn a chostau moduro megis tanwydd ac yswiriant.

Nid ydynt yn cynnwys:

- eich cyflog eich hun
- costau gwesteia
- costau prynu cerbyd neu offer arall (oni bai eich bod yn defnyddio’r sail arian parod, pan fo treuliau a ganiateir yn cynnwys gwariant cyfalaf, oni bai bod y gwariant yn gerbydau, ar wahân i geir, sydd yn benodol heb eu caniatáu)
- dibrisiant offer

Caniateir rhai treuliau yn rhannol yn unig. Er enghraifft, gallwch hawlio dim ond y rhan fusnes o’r gost o ddefnyddio eich car eich hun neu ddefnyddio ystafell yn eich cartref fel eich swyddfa.

Os ydych yn defnyddio’r sail arian parod ac wedi talu mwy na £500 o log a chostau eraill ar gyfer benthyciadau arian parod, gallwch hawlio £500 yn unig.

#### Treuliau symlach

Gallwch gyfrifo rhai treuliau busnes gan ddefnyddio cyfraddau unffurf yn hytrach na threuliau busnes gwirioneddol. Nid oes rhaid i chi ddefnyddio’r sail arian parod er mwyn defnyddio treuliau symlach.

Gallwch ddefnyddio cyfraddau unffurf i gyfrifo:

- costau busnes ar gyfer cerbydau
- defnydd busnes o’ch cartref neu’r addasiad o ddefnydd preifat o’ch man busnes fel cartref (ond nid y ddau)

Cyfrifwch y treuliau eraill i gyd yn y dull arferol.

ⓘ I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/expenses-if-youre-self-employed

### 3.8 Lwfansau cyfalaf

Gallwch hawlio lwfansau cyfalaf ar gyfer costau prynu a gwella cyfarpar megis:

- faniau a cheir
- offer a chyfrifiaduron
- silffoedd, celfi a ffitiadau trydan

Mae’r math o lwfans cyfalaf a’r hyn y gallwch hawlio yn dibynnu ar yr asedion sydd gennych ac amgylchiadau eraill, er enghraifft mae rheolau arbennig ar gyfer ceir.

Os ydych yn defnyddio'r sail arian parod, dim ond ar gyfer ceir y gallwch hawlio lwfansau cyfalaf. Os ydych wedi gwneud hawliad blaenorol am lwfansau cyfalaf ar gyfer car, gallwch gario ymlaen i hawlio'r lwfans ym mlwch 3.8. Rhowch unrhyw ran o gostau rhedeg y car sydd ar gyfer y busnes mlwch 3.7. Ni allwch ddefnyddio cyfraddau unffurf.

Os nad ydych erioed wedi hawlio lwfansau cyfalaf ar gyfer y car gallwch ddewis defnyddio un ai cyfradd unffurf **neu** hawlio lwfansau cyfalaf.

ℹ I gael help wrth gyfrifo eich lwfansau cyfalaf, ewch i www.gov.uk/business-tax/capital-allowances

### 3.9 Elw

Os yw cyfanswm yr incwm a gawsoch o'ch busnes yn fwy na'ch treuliau a lwfansau cyfalaf, rydych wedi gwneud elw. Os nad oedd gennych unrhyw dreuliau neu lwfansau cyfalaf caniataol, rhowch yr un ffigur ym mlwch 3.9 ag a nodwyd gennych ym mlwch 3.6.

Os ydych wedi hawlio'r lwfans incwm masnachu, eich elw yw blwch 3.6 llai'r swm a hawliwyd ym mlwch 3.6A.

### 3.10 Colled

Os yw eich treuliau a lwfansau cyfalaf yn fwy na'r incwm busnes, rydych wedi gwneud colled. Dylech gynnwys colled ar gyfer y flwyddyn dreth hon yn unig. Rhowch unrhyw golled o flwyddyn flaenorol ym mlwch 3.11.

Ni allwch wneud colled os ydych wedi hawlio'r lwfans incwm masnachu ym mlwch 3.6A.

### 3.10A Grant Cynllun Cymhorthdal Incwm Hunangyflogaeth (SEISS) a gafwyd yn y flwyddyn hyd at 5 Ebrill 2022

Os cawsoch grant drwy'r Cynllun Cymhorthdal Incwm Hunangyflogaeth (SEISS) yn y flwyddyn hyd at 5 Ebrill 2022, dylech gynnwys ym mlwch 3.10A y swm roedd gennych hawl iddo.
Os ydych wedi cael asesiad oddi wrth swyddog CThEM mewn perthynas â grant SEISS a hawliwyd yn anghywir, dylech gynnwys ym mlwch 3.10A y swm a gadwyd gennych yn unig. Peidiwch â chynnwys ym mlwch 3.10A unrhyw swm sydd wedi'i asesu ac sy'n arwain at ad-dalu grant SEISS nad oedd gennych hawl iddo.
Dylech gynnwys ym mlwch 3.10A y swm roedd gennych hawl iddo, ni waeth beth yw dyddiadau cau eich llyfrau neu'ch cyfrifon (ym mlwch 3.4).
Os cawsoch grant SEISS nad oedd gennych hawl iddo, a'ch bod heb ei ad-dalu'n wirfoddol i CThEM neu'ch bod heb gael asesiad oddi wrth swyddog CThEM mewn perthynas â'r grant a hawliwyd yn anghywir, mae'n rhaid i chi lenwi Ffurflen Dreth Lawn. Darllenwch y nodiadau ar dudalen 2.

### 3.12 Os yw cyfanswm eich elw ar gyfer 2021 i 2022 yn llai na £6,515 ac rydych yn dewis talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol (CYG) Dosbarth 2 yn wirfoddol

Os yw eich elw trethadwy yn £6,515 neu fwy, rydych yn talu CYG Dosbarth 2 (£3.05 yr wythnos). Os yw eich elw yn is na £6,515 neu os wnaethoch golled, gallwch dalu CYG Dosbarth 2 yn wirfoddol er mwyn gwarchod eich Pensiwn y Wladwriaeth a budd-daliadau penodol. Rhowch 'X' ym mlwch 3.12 os ydych am dalu CYG Dosbarth 2 yn wirfoddol. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/voluntary-national-insurance-contributions

Mae'n rhaid i chi fod wedi eich cofrestru'n hunangyflogedig er mwyn talu CYG Dosbarth 2 neu i dalu'n wirfoddol. Os ydych wedi eich cofrestru ar gyfer Hunanasesiad ond ddim wedi eich cofrestru'n hunangyflogedig, ewch i ewch i www.gov.uk/cofrestru-ar-gyfer-a-chyflwynoch-ffurflen-dreth-hunanasesiad/hunangyflogedig

### 3.13 Cyfraniadau Yswiriant Gwladol (CYG) Dosbarth 4

Nid oes rhaid i chi dalu CYG Dosbarth 4 os yw'r canlynol yn berthnasol:

- roeddech wedi cyrraedd, neu dros, oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar 6 Ebrill 2021
- roeddech o dan 16 oed ar 6 Ebrill 2021
- nid oeddech yn preswylio yn y DU at ddibenion treth yn ystod 2021 i 2022

Rhowch 'X' ym mlwch 3.13, os ydych wedi'ch eithrio.

### 3.14 Didyniadau ar ddatganiadau tâl a didyniad a gawsoch gan gontractwyr

Os ydych yn gweithio yn y diwydiant adeiladu, a didynnodd eich contractwr ddidyniadau o'r arian y gwnaeth ef/hi dalu i chi, adiwch at ei gilydd yr holl ddidyniadau am y flwyddyn hyd at 5 Ebrill 2022 a nodwch y cyfanswm ym mlwch 3.14. Gwiriwch eich bod wedi rhoi'r swm gros ar gyfer y cyfnod cyfrifyddu cyn didyniadau'r contractwr ym mlwch 3.6.

## Pensiynau'r DU a budd-daliadau'r Wladwriaeth a gawsoch

### 4.1 Pensiwn y Wladwriaeth

Defnyddiwch y llythyr ynghylch y cynnydd cyffredinol mewn budd-daliadau a anfonwyd atoch gan y Gwasanaeth Pensiwn i ddod o hyd i'ch swm wythnosol o Bensiwn y Wladwriaeth.

Cyfrifwch y swm yr oedd gennych yr hawl i'w gael o 6 Ebrill 2021 i 5 Ebrill 2022 a nodwch y cyfanswm ym mlwch 4.1. Peidiwch â chynnwys unrhyw swm a gawsoch ar gyfer Lwfans Gweini.

Os gwnaeth eich Pensiwn y Wladwriaeth newid yn ystod y flwyddyn neu os gwnaethoch ond ei gael am ran o'r flwyddyn, lluoswch bob swm â nifer yr wythnosau yr oedd gennych yr hawl i'w cael. Ychwanegwch y symiau at ei gilydd yn ofalus.

Os nad oes gennych lythyr gan y Gwasanaeth Pensiwn, ffoniwch nhw ar 0800 731 0453.

### 4.2 Cyfanswm pensiynau eraill ac ati

Dylech gynnwys pensiynau trethadwy eraill, megis pensiynau galwedigaethol a blwydd-daliadau ymddeol, ynghyd â'r canlynol:

- rhan drethadwy unrhyw 'arian nas defnyddiwyd ar ffurf cyfandaliad pensiwn' a ddidynnwyd gennych o dan hyblygrwydd pensiwn
- cyfandaliadau trethadwy a chyfandaliadau budd-dal marwolaeth trethadwy sy'n cael eu trin fel incwm pensiwn

Peidiwch â chynnwys:

- blwydd-daliadau a brynwyd (defnyddiwch flwch 5.1 neu 5.2)
- budd-daliadau marwolaeth, sy'n deillio o bensiwn, nad ydynt yn drethadwy, y mae gennych hawl iddynt am y tro cyntaf o 6 Ebrill 2015 ymlaen

ⓘ I gael rhagor o wybodaeth am dreth ar bensiynau neu fudd-dal marwolaeth pensiwn, ewch i www.gov.uk/tax-on-pension a www.gov.uk/tax-on-pension-death-benefits

### 4.3 Budd-dal Analluogrwydd Trethadwy a Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ar sail cyfraniadau/Taliad Atodol i Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sydd wedi'i Gyfyngu o ran Amser (a delir yng Ngogledd Iwerddon yn unig)

Bydd cyfanswm eich budd-dal neu lwfans trethadwy ar eich P60 neu eich P45 a gawsoch gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Peidiwch â chynnwys:

- Budd-dal Analluogrwydd os buoch yn ei gael am yr un salwch ers Ebrill 1995
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ar sail Incwm

### 4.6 Cyfanswm budd-daliadau trethadwy eraill y Wladwriaeth

Os cawsoch unrhyw un o'r canlynol, adiwch nhw at ei gilydd a rhowch y cyfanswm ym mlwch 4.6:

- Lwfans Profedigaeth neu Bensiwn Gwraig Weddw
- Lwfans Rhiant Gweddw neu Lwfans Mam Weddw
- Budd-dal Marwolaeth Ddiwydiannol
- Lwfans Gofalwr/Taliad Atodol i Lwfans Gofalwr (pan fyddwch yn ei gael yn lle Lwfans Gofalwr – telir yng Ngogledd Iwerddon yn unig)
- Taliad Atodol i Lwfans Gofalwr (pan fyddwch yn ei gael fel taliad ychwanegol ar gyfer pobl yn yr Alban sy'n cael Lwfans Gofalwr)
- Tâl Salwch Statudol neu Dâl Mamolaeth, Tadolaeth neu Fabwysiadu Statudol a Thâl Ar y Cyd i Rieni a dalwyd gan CThEM (nid eich cyflogwr)

Peidiwch â chynnwys Bonws y Nadolig a Thaliad Tanwydd Gaeaf, neu unrhyw Daliadau Tywydd Oer.

ⓘ I gael rhagor o wybodaeth am fuddiannau trethadwy a buddiannau di-dreth y Wladwriaeth, ewch i www.gov.uk/treth-incwm

## Llog, difidendau ac incwm arall o fuddsoddiadau yn y DU

Mae hyn yn cynnwys:

- llog ar gynilion banc a chymdeithas adeiladu (nid ISAs)
- llog trethadwy a gafwyd ar daliadau iawndal, er enghraifft, yswiriant diogelu taliadau (PPI)
- llog ar gyfrifon Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol (NS&I) a bondiau cynilo
- llog a dosbarthiadau difidend o ymddiriedolaethau unedol awdurdodedig, cwmnïau buddsoddi penagored ac ymddiriedolaethau buddsoddi yn y DU
- incwm o flwydd-daliadau bywyd a brynwyd

## Parau priod a phartneriaid sifil

Fel arfer, rydym yn trin incwm o fuddsoddiadau a ddelir ar y cyd fel rhai sy'n eiddo i'r ddau ohonoch ar sail gyfartal. Bydd y ddau ohonoch yn talu treth ar hanner yr incwm. Fodd bynnag, os ydych yn dal swm anghyfartal o gyfranddaliadau, gallwch ddewis cael yr incwm a thalu treth ar y cyfrannau hynny. Os hoffech wneud y dewis hwnnw, cysylltwch â ni.

Dylech nodi eich cyfran chi yn unig o unrhyw incwm ar y cyd ar y Ffurflen Dreth.

### 5.1 Llog y DU a drethwyd

Defnyddiwch fanylion y llog net o'ch cyfriflenni banc, llyfr cyfrif cymdeithas adeiladu neu dalebau electronig. Os oes gennych fwy nag un cyfrif, adiwch at ei gilydd eich holl log net a nodwch y cyfanswm ym mlwch 5.1.

### 5.2 Llog y DU nas trethwyd

Os oes gennych gyfrif sy'n talu llog gros i chi (er enghraifft, cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu) neu fondiau cynilo NS&I a delir fel swm gros, rhowch y swm gros ym mlwch 5.2.

### 5.3 Difidendau gan gwmnïau

Mae hyn yn cynnwys difidendau o ymddiriedolaethau unedol awdurdodedig, cwmnïau buddsoddi penagored ac ymddiriedolaeth buddsoddi. Rhowch swm eich taleb difidend ym mlwch 5.3. Os cawsoch ddifidendau tramor o hyd at £2,000, rhowch y swm net (hynny yw, ar ôl treth) mewn punnoedd y DU. Os gawsoch ddifidendau tramor dros £2,000, rhaid i chi lenwi Ffurflen Dreth lawn.

## Eiddo yn y DU

I gael help gydag incwm o renti, ewch i PIM1051 yn y *'Property Income Manual'* yn www.gov.uk/government/collections/hmrc-manuals

Os yw'ch incwm am y flwyddyn gyfan o eiddo yn y DU yn £85,000 neu fwy, rhaid i chi lenwi Ffurflen Dreth lawn.

Nid oes rhaid i chi roi gwybod am incwm o eiddo yn y DU os yw'n £1,000 neu lai. Darllenwch y nodiadau ar dudalen 1 'Gwirio a oes yn dal angen i chi lenwi Ffurflen Dreth'.

Os ydych am hawlio lwfansau cyfalaf, ni allwch ddefnyddio'r ffurflen hon a bydd angen i chi lenwi Ffurflen Dreth lawn.

### 6.0 Cyfrifyddu traddodiadol neu'r sail arian parod

Rhowch 'X' ym mlwch 6.0 os gwnaethoch ddefnyddio cyfrifyddu traddodiadol ac nid y sail arian parod.

### Sail arian parod

Mae'r sail arian parod yn ffordd symlach o gyfrifo elw neu golledion eich eiddo. Rydych yn ychwanegu'ch holl incwm eiddo a gafwyd ac yn tynnu unrhyw dreuliau caniataol a dalwyd yn ystod y flwyddyn. Peidiwch â chynnwys arian sydd arnoch neu arian sy'n ddyledus i chi ar ddiwedd y flwyddyn.

ℹ I gael rhagor o wybodaeth am y sail arian parod, ewch i www.gov.uk/guidance/income-tax-when-you-rent-out-a-property-working-out-your-rental-income

Gallwch benderfynu bob blwyddyn p'un ai'r sail arian parod yw'r opsiwn gorau i chi, a rhaid i chi roi gwybod i ni bob blwyddyn os ydych am ddefnyddio cyfrifyddu traddodiadol yn hytrach na'r sail arian parod.

### Addasiadau trawsnewidiol

Os ydych yn newid eich dull cyfrifyddu, efallai y bydd angen i chi wneud addasiad trawsnewidiol. I gael arweiniad ar yr addasiadau sydd angen i chi eu gwneud, ewch i www.gov.uk/guidance/income-tax-when-you-rent-out-a-property-working-out-your-rental-income

Rhaid cynnwys pob derbynneb drawsnewidiol ym mlwch 6.1 a'r holl dreuliau trawsnewidiol ym mlwch 6.2.

### 6.1 Incwm

Mae hwn yn incwm o dir rydych yn ei berchen neu'n ei osod ar brydles, neu eiddo ar osod gennych. Peidiwch â chynnwys llety gwyliau wedi'i ddodrefnu.

Os ydych yn gosod ystafell yn eich cartref ac rydych am hawlio rhyddhad Rhentu Ystafell, rhowch eich incwm ar ôl didynnu'r rhyddhad (£7,500 neu £3,750 y flwyddyn os caiff ei gosod ar y cyd) ym mlychau 6.1 a 6.3. Peidiwch â hawlio treuliau ym mlwch 6.2.

ℹ I gael rhagor o wybodaeth am y Cynllun Rhentu Ystafell, ewch i www.gov.uk a chwiliwch am HS223

Mae taliadau drwy gynllun cymorth yn sgil coronafeirws yn drethadwy, ac maent yn cynnwys taliadau drwy'r Cynllun Cadw Swyddi yn sgil Coronafeirws (CJRS), unrhyw gynllun cymorth perthnasol arall gan CThEM yn sgil coronafeirws, a thaliadau yr oedd gennych hawl i'w cael gan awdurdodau lleol neu weinyddiaethau datganoledig.

Os cawsoch daliadau drwy gynllun cymorth yn sgil coronafeirws, dylech gynnwys ym mlwch 6.1 y swm a gawsoch.

Peidiwch â chynnwys ym mlwch 6.1 daliadau drwy'r Cynllun Cymhorthdal Incwm Hunangyflogaeth (SEISS) – gweler blwch 3.10A.

Os ydych wedi cael asesiad oddi wrth swyddog CThEM mewn perthynas â thaliad drwy gynllun cymorth yn sgil coronafeirws a hawliwyd yn anghywir, dylech gynnwys ym mlwch 6.1 y swm a gadwyd gennych yn unig.

Peidiwch â chynnwys ym mlwch 6.1 unrhyw swm sydd wedi'i asesu ac sy'n arwain at ad-dalu taliadau drwy gynlluniau cymorth yn sgil coronafeirws nad oedd gennych hawl iddynt.

Peidiwch â chynnwys taliadau CJRS a gafwyd fel cyflogai tra oeddech ar ffyrlo.

Os cawsoch daliad nad oedd gennych hawl iddo – a hynny drwy CJRS neu unrhyw gynllun cymorth perthnasol arall gan CThEM yn sgil coronafeirws – a'ch bod heb ei ad-dalu'n wirfoddol i CThEM neu'ch bod heb gael asesiad oddi wrth swyddog CThEM mewn perthynas â'r taliad a hawliwyd yn anghywir, mae'n rhaid i chi lenwi Ffurflen Dreth Lawn. Darllenwch y nodiadau ar dudalen 2.

Os yw'ch incwm o eiddo yn y DU yn £1,000 neu lai, darllenwch y nodiadau ar dudalen 1 'Gwirio a oes yn dal angen i chi lenwi Ffurflen Dreth' cyn i chi lenwi'r blwch hwn, oni bai bod gennych dreuliau caniataol sy'n uwch na'ch incwm, a'ch bod yn dymuno bod â'r gallu i hawlio rhyddhad am y golled yn erbyn incwm o eiddo yn y dyfodol - yna rhowch yr incwm ym mlwch 6.1, eich treuliau caniataol ym mlwch 6.2 a'r golled ym mlwch 6.4.

ℹ I gael rhagor o wybodaeth am y lwfans masnachu ac eiddo, ewch i www.gov.uk/guidance/tax-free-allowances-on-property-and-trading-income

Os ydych yn defnyddio'r sail arian parod, eich incwm yw cyfanswm y symiau a gawsoch yn ystod y flwyddyn.

### Eiddo wedi'i osod ar y cyd

Os ydych yn berchen ar eiddo ar y cyd ac yn gosod eiddo ar y cyd, dim ond eich cyfran chi o'r incwm a'r treuliau y dylech ei rhoi yn yr adran 'Eiddo yn y DU'. Mae'n rhaid i chi ddefnyddio'r un sail, naill ai'r sail arian parod neu'r sail cyfrifyddu draddodiadol, i gyfrifo'ch elw.

Rydym yn trethu'ch cyfranddaliadau'n gyfartal os ydych yn gosod eiddo ar y cyd â'ch priod a'ch bod yn byw gyda'ch gilydd.

Os ydych am i'ch incwm a'ch treuliau gael eu dyrannu'n wahanol, dylech lenwi ffurflen 17 'Datganiad o fuddiannau llesiannol mewn eiddo ac incwm ar y cyd' – ewch i www.gov.uk/government/publications/income-tax-declaration-of-beneficial-interests-in-joint-property-and-income-17.cy

### 6.1A Lwfans incwm o eiddo

Gallwch ddewis p'un a ddylid tynnu'r lwfans incwm o eiddo ai peidio. Efallai y dewiswch wneud hynny os yw'ch treuliau caniataol yn llai na £1,000. Ni allwch wneud hyn os yw'ch incwm o eiddo yn deillio o barti cysylltiedig (gweler tudalen 1 'Gwirio a oes yn dal angen i chi lenwi Ffurflen Dreth').

Os ydych yn hawlio lwfans incwm masnachu, ni allwch ddidynnu treuliau caniataol. Peidiwch â llenwi blwch 6.2.

Os ydych am gyfrifo'ch elw trethadwy trwy ddidynnu'r lwfans incwm o eiddo o'ch eiddo yn y DU yn hytrach na didynnu'ch treuliau caniataol, rhowch swm y lwfans incwm o eiddo a ddefnyddir (hyd at £1,000) ym mlwch 6.1A. Ni all swm y lwfans incwm o eiddo a ddefnyddir bod yn fwy na'ch incwm ym mlwch 6.1.

I gael rhagor o wybodaeth am lwfans masnachu ac eiddo, ewch i www.gov.uk/guidance/tax-free-allowances-on-property-and-trading-income

### 6.2 Treuliau caniataol at ddibenion treth

Gallwch hawlio ar gyfer y costau sy'n gysylltiedig â rhedeg eich busnes eiddo yn y DU. Megis:

- rhent, trethi, yswiriant a rhent tir
- atgyweirio a chynnal a chadw'r eiddo
- hysbysebu, deunydd ysgrifennu, defnyddio'r ffôn a theithiau busnes - i gael rhagor o wybodaeth am dreuliau cyfradd unffurff ar gyfer landlordiaid, ewch i www.gov.uk/hmrc-internal-manuals/property-income-manual/pim2220
- cyflogau (dylech gynnwys cyflogau a ariannwyd drwy'r Cynllun Cadw Swyddi yn sgil Coronfeirws ac a dalwyd i gyflogeion)
- unrhyw wasanaethau a ddarperir gennych, fel glanhau
- y gost o osod eitemau domestig newydd yn lle hen rai
- dyledion na ellir eu hadennill a ddilëwyd (dim ond os nad ydych yn defnyddio sail arian parod) – i gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/hmrc-internal-manuals/property-income-manual/pim2072
- costau cael benthyciad neu gyllid, gan gynnwys y llog y mae'n rhaid i chi'i dalu – efallai na fyddwch yn gallu hawlio'r swm llawn yr ydych chi wedi'i dalu – darllenwch y nodiadau ar gyfer llog ar fenthyciadau a chostau ariannol eraill

I gael rhagor o wybodaeth am gostau ariannol eiddo preswyl, ewch i www.gov.uk/guidance/changes-to-tax-relief-for-residential-landlords-how-its-worked-out-including-case-studies

### Llog ar fenthyciadau a chostau ariannol eraill

Ar gyfer eiddo dibreswyl, gallwch ddidynnu'r costau o gael benthyciad neu drefniant ariannol amgen i brynu eiddo rydych yn ei osod, a swm llawn unrhyw log ar fenthyciad o'r fath neu daliadau ariannol eraill.

Ar gyfer eiddo preswyl ni allwch ddidynnu'r gost o gael benthyciad neu drefniant ariannol arall er mwyn prynu eiddo rydych yn ei osod, nac unrhyw log ar fenthyciad o'r fath neu ar daliadau ariannol eraill. Defnyddir y costau at ddiben cyfrifo gostyngiad mewn Treth Incwm ym mlwch 6.6.

I gael rhagor o wybodaeth am y cyfyngiad ar gostau ariannol eiddo preswyl, ewch i www.gov.uk/guidance/changes-to-tax-relief-for-residential-landlords-how-its-worked-out-including-case-studies

### 6.3 Elw

Os yw cyfanswm yr incwm o eiddo yn y DU yn fwy na'ch treuliau, rydych wedi gwneud elw. Os nad oedd gennych unrhyw dreuliau caniataol, rhowch yr un ffigur ym mlwch 6.3 ag a nodwyd gennych ym mlwch 6.1.

Os ydych wedi hawlio'r lwfans incwm o eiddo, eich elw yw blwch 6.1 llai'r swm a hawliwyd ym mlwch 6.1A.

### 6.4 Colled

Ni allwch wneud colled os ydych wedi hawlio'r lwfans incwm o eiddo ym mlwch 6.1A.

### 6.6 Costau ariannol eiddo preswyl

Defnyddiwch y swm hwn er mwyn cyfrifo gostyngiad yn eich Treth Incwm.

I gael rhagor o wybodaeth am gostau ariannol eiddo preswyl, ewch i www.gov.uk/guidance/changes-to-tax-relief-for-residential-landlords-how-its-worked-out-including-case-studies

### 6.7 Costau ariannol eiddo preswyl nas defnyddiwyd a ddygwyd ymlaen

Rhowch unrhyw gostau ariannol preswyl nas defnyddiwyd o'r busnes eiddo hwn o flynyddoedd cynharach, ym mlwch 6.7.

Gellir cario unrhyw balans o'r costau ariannol preswyl sydd dal heb ryddhad, ymlaen i flynyddoedd i ddod o'r un busnes eiddo.

## Incwm ac enillion cyfalaf eraill y DU

Incwm o gomisiynau, enillion achlysurol, taliadau trethadwy drwy gynllun cymorth yn sgil coronafeirws (os na roddwyd gwybod amdanynt rywle arall ar y Ffurflen Dreth hon) ac enillion cyfalaf yw hyn. Os cewch daliadau fel cyfarwyddwr cwmni, cyfandaliad gan eich cyflogwr neu incwm o ystâd person ymadawedig, rhaid i chi lenwi Ffurflen Dreth lawn. Peidiwch â chynnwys y taliadau diswyddo sydd wedi'u cwmpasu gan yr eithriad o £30,000. Ni ddylech ddefnyddio'r adran hon ar gyfer unrhyw incwm a restrir ar dudalen 2.

Nid oes raid i chi roi gwybod am incwm o enillion achlysurol a/neu gomisiwn (nid o gyflogaeth) os oedd, pan y'i hychwanegwyd at incwm o hunangyflogaeth a/neu incwm o weithio fel is-gontractwr yn y diwydiant adeiladu, yn £1,000 neu lai. Darllenwch y nodiadau ar dudalen 1 'Gwirio a oes yn dal angen i chi lenwi Ffurflen Dreth'.

Mae enillion achlysurol eraill nad ydynt yn gymwys ar gyfer y lwfans incwm masnachu, megis cildyrnau a thaliadau eraill o gyflogaeth sydd ddim wedi'u cynnwys ar eich P60, hefyd yn mynd i flwch 7.1.

### 7.1 Incwm arall

Os yw'ch enillion achlysurol a/neu gomisiwn (nid o gyflogaeth) yn £1,000 neu lai, darllenwch y nodiadau ar dudalen 1 'Gwirio a oes yn dal angen i chi lenwi Ffurflen Dreth' cyn i chi lenwi'r blwch hwn, oni bai bod gennych incwm o'ch hunangyflogaeth, a/neu o weithio fel isgontractwr yn y diwydiant adeiladu i roi gwybod amdano ym mlwch 3.6, sy'n fwy na £1,000 pan y'i hychwanegir at eich enillion achlysurol a/neu gomisiwn (nid o gyflogaeth).

ℹ I gael rhagor o wybodaeth am y lwfans masnachu ac eiddo, ewch i www.gov.uk/guidance/tax-free-allowances-on-property-and-trading-income

Os ydych eisoes wedi defnyddio rhan neu'ch holl lwfans incwm masnachu o £1,000 yn erbyn eich incwm o hunangyflogaeth, yna'r swm nas defnyddiwyd o'r lwfans, os oes peth, a ellir ei ddefnyddio. Rhowch unrhyw incwm sy'n fwy na'r swm hwnnw ym mlwch 7.1. Fel arall, nodwch swm yr incwm arall sy'n llai na'r lwfans masnachu o £1,000 ym mlwch 7.1.

Os oes gennych enillion achlysurol eraill nad ydynt yn gymwys ar gyfer y lwfans incwm masnachu, megis cildyrnau a thaliadau eraill o gyflogaeth sydd ddim wedi'u cynnwys ar eich P60, ychwanegwch y rhain at ei gilydd ynghyd ag unrhyw symiau eraill a nodwch y cyfanswm ym mlwch 7.1.

**Enghraifft**

Mae gan Steffan incwm hunangyflogedig o £500, incwm o enillion achlysurol o £800 (gellir defnyddio'r lwfans incwm masnachu yn erbyn hwn) a £400 o gildyrnau (sydd ddim yn gymwys ar gyfer y lwfans incwm masnachu). Oherwydd bod cyfanswm ei incwm sy'n gymwys ar gyfer lwfans incwm masnachu dros £1,000, mae'n rhaid rhoi gwybod amdano ar ei Ffurflen Dreth. Mae Steffan yn rhoi £500 ym mlwch 3.6 (Trosiant) a £500 ym mlwch 3.6A (Lwfans incwm masnachu). Swm y lwfans sy'n weddill = £500 (£1,000 lwfans incwm masnachu llai £500.00 a ddefnyddir yn erbyn incwm hunangyflogedig). Mae gan Steffan £500 o lwfans incwm masnachu i ddefnyddio yn erbyn ei enillion achlysurol o £800. £800 llai £500 = £300 i ychwanegu i'w £400 o gildyrnau = £700. Mae Steffan yn rhoi £700 ym mlwch 7.1.

### 7.4 Enillion cyfalaf

Dylech roi 'X' ym mlwch 7.4 a llenwi'r SA108, tudalennau 'Crynodeb Treth Enillion Cyfalaf' a rhoi'ch cyfrifiant neu Daflen Waith i ni os:

- gwnaethoch werthu, neu waredu mewn unrhyw ffordd arall, asedion trethadwy gyda gwerth o fwy na £49,200
- oedd eich enillion trethadwy cyn tynnu i ffwrdd unrhyw golledion yn fwy na £12,300
- rydych am hawlio colled cyfalaf caniataol neu wneud hawliad neu ddewis enillion cyfalaf

ℹ I gael gwybodaeth, ewch i www.gov.uk/capital-gains-tax
I gael copi o'r tudalennau a nodiadau 'Crynodeb Treth Enillion Cyfalaf', yn cynnwys y daflen waith, ewch i www.gov.uk a chwiliwch am SA108.

## Rhodd Cymorth

Rhodd Cymorth yw'r rhyddhad treth ar gyfer rhoddion ariannol i elusennau a Chlybiau Chwaraeon Amatur Cymunedol. Os gwnaethoch roi cyfranddaliadau neu eiddo i elusen, os ydych am drin taliadau 2022 i 2023 fel pe baech wedi'u gwneud yn 2021 i 2022, neu os ydych am hawlio rhyddhad am roddion a wnaed i elusennau nad ydynt wedi'u lleoli yn y DU, rhaid i chi lenwi Ffurflen Dreth lawn.

### 8.1 Taliadau Rhodd Cymorth a wnaed yn y flwyddyn hyd at 5 Ebrill 2022

Dyma gyfanswm y taliadau Rhodd Cymorth a wnaethoch eleni, llai unrhyw symiau y gofynnoch i ni eu trin fel taliadau 2020 i 2021. Peidiwch â chynnwys unrhyw daliadau a wnewch o dan Rhoi Trwy'r Gyflogres.

### 8.2 Cyfanswm unrhyw daliadau 'unigol' a gynhwyswyd ym mlwch 8.1

Er mwyn ein helpu i nodi'r cod treth TWE cywir ar eich cyfer, os oes un gennych, rhowch ym mlwch 8.2 unrhyw daliadau Rhodd Cymorth unigol a nodwyd gennych ym mlwch 8.1.

ℹ I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/donating-to-charity

## Cyfrannu at gynlluniau pensiwn cofrestredig neu gynlluniau pensiwn tramor

Gallwch hawlio rhyddhad treth ar eich cyfraniadau personol i gynllun pensiwn cofrestredig os gwnaethoch eu talu cyn i chi gyrraedd 75 mlwydd oed, a'ch bod:

- wedi bod yn byw yn y DU yn ystod y flwyddyn dreth
- wedi cael enillion trethadwy, fel incwm o gyflogaeth neu elw o hunangyflogaeth
- wedi cael enillion o gyflogaeth dramor o dan y Goron sy'n drethadwy yn y DU (neu roedd gan eich priod neu'ch partner sifil enillion o'r fath)
- roeddech yn byw yn y DU pan ymunoch â'r cynllun pensiwn, ac ar unrhyw adeg yn ystod y 5 blwyddyn dreth cyn 2021 i 2022

Peidiwch â chynnwys unrhyw symiau ar gyfer:
- cyfraniadau aswiriant tymor personol
- cyfraniadau eich cyflogwr
- cyfraniadau a dynnwyd o'ch cyflog cyn didynnu treth

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i PTM044100 yn y 'Pensions Tax Manual' yn: www.gov.uk/government/collections/hmrc-manuals

Yr uchafswm cyfraniadau personol y gallwch hawlio rhyddhad treth arnynt yw naill ai:
- hyd at swm eich enillion trethadwy yn y DU am y flwyddyn dreth
- hyd at £3,600 (hynny yw, £2,880 a dalwyd gennych ynghyd â £720 o ryddhad treth a hawliwyd gan ddarparwr eich pensiwn) i gynllun 'rhyddhad wrth y ffynhonnell' yn unig

Os yw eich cynilion pensiwn yn fwy na'r Lwfans Blynyddol, a bod treth yn ddyledus, rhaid i chi lenwi Ffurflen Dreth lawn a thalu treth.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/tax-on-your-private-pension neu ewch i www.gov.uk a chwiliwch am HS345.

### 9.1 Taliadau i gynlluniau pensiwn cofrestredig sy'n defnyddio cynllun 'rhyddhad wrth y ffynhonnell'

O dan y cynllun 'rhyddhad wrth y ffynhonnell', mae darparwr eich pensiwn yn hawlio rhyddhad treth ar y gyfradd sylfaenol (20%) ar eich cyfraniadau personol ac yn ei ychwanegu i'ch cronfa bensiwn.

Rhowch y cyfanswm ym mlwch 9.1 – hynny yw, y cyfraniadau personol a dalwyd gennych i'r cynllun ynghyd â'r rhyddhad treth ar y gyfradd sylfaenol. Cynhwyswch unrhyw gyfraniadau unigol a wnaethoch yn ystod y flwyddyn.

Defnyddiwch y dystysgrif pensiwn neu'r dderbynneb a gewch gan eich gweinyddwr i lenwi blwch 9.1, neu cyfrifwch y ffigur drwy rannu'r swm a daloch ag 80 a lluosi'r canlyniad â 100.

**Enghraifft**

Mae Elin wedi talu £700 i'w chronfa bensiwn. Mae'n nodi £875 ym mlwch 9.1 (£700 wedi ei rannu ag 80 a'i luosi â 100), sef ei thaliad net yn ogystal â'r rhyddhad treth o £175 (£875 ar 20%).

Os ydych yn talu treth ar gyfradd sy'n uwch na 20% dylech barhau i roi'r swm a daloch, ynghyd â'r rhyddhad treth ar y gyfradd sylfaenol (20%), ym mlwch 9.1. Byddwn yn cyfrifo unrhyw ryddhad treth sy'n ddyledus i chi.

### 9.2 Taliadau gros – taliadau a wnaed heb ryddhad treth ar y gyfradd sylfaenol

Os oes rhaid i chi hawlio'r holl ryddhad treth eich hun, rhowch gyfanswm y cyfraniadau personol a wnaed gennych ym mlwch 9.2.

Gallai hyn gynnwys taliadau i:
- gontract blwydd-dal ymddeol nad yw'n defnyddio'r cynllun 'rhyddhad wrth y ffynhonnell'
- cynllun pensiwn cofrestredig eich cyflogwr lle na roddwyd unrhyw ryddhad treth oherwydd amseru'r taliad neu oherwydd iddo gael ei wneud gan berson arall
- cynllun pensiwn tramor lle rydych yn gymwys i gael rhyddhad aelod mudol, rhyddhad cyfatebol trosiannol neu ryddhad o dan Gytundeb Trethiant Dwbl

## Lwfans Person Dall

Os ydych yn byw yng Nghymru neu Loegr, bydd yr awdurdod lleol yn ychwanegu eich enw at ei gofrestr o bobl â nam ar eu golwg (pobl ddall) pan fyddwch yn dangos tystysgrif gan arbenigwr llygaid iddynt sy'n nodi eich bod yn ddall neu fod gennych nam difrifol ar eich golwg.

Os ydych yn byw yn yr Alban neu yng Ngogledd Iwerddon a heb eich cynnwys ar gofrestr, gallwch hawlio Lwfans Person Dall os na allwch wneud gwaith lle mae golwg yn hanfodol. Rhowch 'Yr Alban' neu 'G. Iwerddon' ym mlwch 10.2.

Os gwnaethoch ofyn i'ch arbenigwr llygaid roi gwybod i CThEM fod gennych nam ar eich golwg, rhowch 'arbenigwr' ym mlwch 10.2.

## Lwfans Pâr Priod

Gallwch hawlio Lwfans Pâr Priod **dim ond** os cawsoch chi neu eich priod (neu bartner sifil) eich geni cyn 6 Ebrill 1935. Peidiwch â llenwi'r rhan hon os cawsoch eich geni ar ôl y dyddiad hwn.

Os cawsoch chi neu eich priod neu bartner sifil eich geni cyn 6 Ebrill 1935, byddwch yn cael lwfans sy'n cynnwys 2 swm:
- isafswm sy'n werth hyd at £353, yn ogystal â
- swm ar sail incwm sy'n werth hyd at £559.50

Mae hyn ar gyfer naill neu'r llall o'r canlynol:
  - y gŵr os oeddech wedi priodi cyn 5 Rhagfyr 2005
  - y person, (y gŵr, y wraig neu'r partner sifil) sydd â'r incwm uchaf, os oeddech wedi priodi neu ffurfio partneriaeth sifil ar neu ar ôl 5 Rhagfyr 2005

Os ydych eisoes wedi hawlio Lwfans Pâr Priod yn ystod y flwyddyn dreth (o 6 Ebrill 2021 i 5 Ebrill 2022) a'ch bod yn ailbriodi neu'n ffurfio partneriaeth sifil, mae'n well fel arfer i chi barhau i hawlio ar gyfer eich cyn-briod neu bartner sifil. Os yw hyn yn berthnasol i chi, rhowch enw eich cyn-briod neu bartner sifil ym mlwch 11.1.

I gael help gyda'r Lwfans Pâr Priod, ewch i www.gov.uk/married-couples-allowance

**11.1 I hawlio'r lwfans llawn, nodwch enw cyntaf eich priod neu'ch partner sifil**

Llenwch y blwch hwn **dim ond** os mai chi yw naill ai:

- y gŵr ac i chi briodi cyn 5 Rhagfyr 2005, neu
- y person gyda'r incwm uchaf ac i chi briodi neu ffurfio partneriaeth sifil ar neu ar ôl 5 Rhagfyr 2005

**11.2 Rhowch 'X' yn y blwch os ydych chi, fel pâr, eisoes wedi gofyn i ni roi swm llawn yr isafswm i chi, eich priod neu'ch partner sifil**

Rhowch 'X' yn y blwch hwn dim ond os ydych wedi rhoi gwybod i ni eisoes eich bod am drosglwyddo'r lwfans isaf ac wedi llenwi ffurflen 18, '*Transferring the Married Couple's Allowance*', cyn dechrau'r flwyddyn dreth.

**11.4 Dyddiad y briodas neu ddyddiad ffurfio'r bartneriaeth sifil**

Rhowch ddyddiad yn y blwch hwn **dim ond** os gwnaethoch briodi neu ffurfio partneriaeth sifil rhwng 6 Ebrill 2021 a 5 Ebrill 2022. Os oeddech yn briod neu os gwnaethoch ffurfio partneriaeth sifil rhwng 6 Ebrill 2021 a 5 Ebrill 2022, gallwch hawlio 1/12fed o'r Lwfans Pâr Priod am bob mis o'ch priodas neu'ch partneriaeth sifil.

## Os ydych wedi talu gormod neu'n rhy ychydig o dreth

Llenwch fanylion eich cyfrif yn ofalus. Os byddant yn anghywir, bydd oedi cyn y cewch eich ad-daliad. Os ydych wedi talu eich treth gan ddefnyddio cerdyn credyd neu ddebyd, byddwn bob amser yn ceisio ad-dalu'r arian i'ch cerdyn cyn gwneud unrhyw ad-daliad y gofynnwch amdano ym mlychau 12.1 i 12.6. Os oes arnom dreth i chi ond nid ydych yn llenwi blychau 12.1 i 12.6, ni fyddwn yn gallu eich ad-dalu tan i chi gysylltu â ni. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/hawlio-ad-daliad-treth

Sylwer: Os ydych wedi talu eich taliadau ar gyfer 2022 i 2023 ar gyfrif cyn eu dyddiadau dyledus, peidiwch â llenwi blychau 12.1 i 12.6 oherwydd efallai byddwn yn eu had-dalu.

**12.2 Cod didoli'r gangen**

Rhowch y cod didoli yn union fel mae'n ymddangos ar eich cerdyn, eich cyfriflen neu eich llyfr sieciau.

**12.3 Rhif y cyfrif**

Bydd rhif eich cyfrif ar eich cyfriflen neu eich llyfr siec. Gwnewch yn siŵr bod nifer y digidau'r un fath ag ar eich cyfrif. Peidiwch â chynnwys seros ychwanegol.

**12.4 Cyfeirnod y gymdeithas adeiladu**

Efallai y bydd gan eich cyfrif gyfeirnod ychwanegol. Gallai gael ei alw'n rhif rôl, cyfeirnod cyfrif neu'n rhif y cyfrif.

**12.5 Enw deiliad y cyfrif**

Bydd enw'r cyfrif ar eich cyfriflen neu eich llyfr siec. Os mai cyfrif ar y cyd sydd gennych, gwnewch yn siŵr eich bod yn nodi'r ddau enw. Os oes gennych enwebai, gallwch nodi manylion ei gyfrif/chyfrif.

**12.7 Treth 2021 i 2022 a ad-dalwyd eisoes**

Os ydych wedi cael ad-daliad treth oherwydd eich bod wedi gwneud y canlynol:

- rhoi'r gorau i weithio ac wedi hawlio ad-daliad yn ystod y flwyddyn o dreth a dalwyd ar eich
  - cyflogaeth
  - hunangyflogaeth yng Nghynllun y Diwydiant Adeiladu (CIS)
- hawlio'r dreth a dalwyd gennych ar incwm o bensiwn pitw
- anfon Ffurflen Dreth yn ystod y flwyddyn er mwyn hawlio'r ad-daliad ar dreth a dalwyd
- cael ad-daliad o'r Ganolfan Byd Gwaith ar ôl 6 Ebrill

rhowch y swm a ad-dalwyd ym mlwch 12.7.

**Blychau 12.8 a 12.9**

Os oes arnoch lai na £3,000 o dreth ar gyfer y flwyddyn dreth 2021 i 2022, byddwn yn ceisio ei chasglu drwy eich cyflog neu bensiwn o 6 Ebrill 2023 ymlaen. Rhowch 'X' ym mlwch 12.8 dim ond os nad ydych am i ni wneud hyn. Ni allwn gasglu CYG Dosbarth 2 fel hyn gan y gall effeithio ar eich ceisiadau am fudd-daliadau penodol.
Y dyddiad cau ar gyfer talu Yswiriant Gwladol Dosbarth 2 yw 31 Ionawr 2023.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/yswiriant-gwladol/yr-hyn-y-mae-yswiriant-gwladol-ar-ei-gyfer

Os yw'n debygol y bydd arnoch dreth ar gyfer y flwyddyn dreth 2022 i 2023, byddwn yn ceisio ei chasglu drwy eich cyflog neu bensiwn o 6 Ebrill 2022 ymlaen. Os yw'r incwm yn fwy na £10,000, ni fyddwn yn gwneud hyn fel arfer.

Efallai y bydd arnoch y dreth hon os ydych yn cael:
- incwm o gynilion neu fuddsoddiadau
- incwm o eiddo
- enillion achlysurol neu gomisiwn

Rhowch 'X' ym mlwch 12.9 dim ond os nad ydych am i ni wneud hyn a byddai'n well gennych dalu'r dreth drwy eich Hunanasesiad erbyn 31 Ionawr 2024.

Os bydd eich Ffurflen Dreth bapur yn dod i law erbyn 31 Hydref 2022, byddwn yn cyfrifo a oes gennych unrhyw dreth i'w thalu a rhoi gwybod i chi cyn 31 Ionawr 2023.

Byddwn yn anfon cyfrifiad treth atoch sydd hefyd yn rhoi gwybod a oes rhaid i chi wneud taliadau ar gyfrif ar gyfer blwyddyn dreth 2022 i 2023.

ℹ I gael rhagor o wybodaeth am daliadau ar gyfrif, ewch i www.gov.uk/deall-eich-bil-treth-hunanasesiad

## Llofnodi eich ffurflen a'i dychwelyd

**13.0 Os cafodd unrhyw un o'ch busnesau daliadau cymorth yn sgil coronafeirws**

Os cafodd eich busnes unrhyw daliadau drwy gynllun cymorth yn sgil coronafeirws, rhowch 'X' ym mlwch 13.0 er mwyn cadarnhau bod y taliadau hyn wedi'u cynnwys fel incwm trethadwy ym mlychau perthnasol y Ffurflen Dreth hon, at ddibenion cyfrifo'ch elw.

Darllenwch yr arweiniad ar gyfer y blychau perthnasol i gael rhagor o fanylion ynghylch ble i gynnwys y taliadau hyn.

Does dim angen i chi lenwi'r blwch hwn os mai'r unig daliadau a gawsoch drwy gynllun cymorth oedd taliadau yn sgil bod ar ffyrlo fel cyflogai.

Dylech sicrhau eich bod yn llofnodi a dyddio'r ffurflen mewn inc du. Os byddwch yn anghofio, byddwn yn ei dychwelyd atoch a bydd yn cymryd yn hwy i ddelio ag unrhyw ad-daliad.

Peidiwch ag anfon unrhyw dderbyniadau, cyfrifon na gwaith papur arall gyda'ch Ffurflen Dreth, oni fyddwn yn gofyn amdanynt.

Gallwch lofnodi ar ran rhywun arall:
- os ydych yn ysgutor sy'n delio gydag ystad person ymadawedig o 6 Ebrill 2021 i'r dyddiad y bu'r person farw
- os ydych wedi eich penodi gan lys yn y DU i lenwi Ffurflen Dreth ar ran rhywun na all, yn feddyliol, ei deall hi
- os oes gennych bŵer atwrnai parhaus neu arhosol i weithredu ar ran rhywun na all, yn gorfforol neu'n feddyliol, lenwi Ffurflen Dreth

Os nad ydych eisoes wedi anfon tystiolaeth o'ch penodiad, anfonwch y ddogfen wreiddiol, neu gopi ardystiedig, gyda'r Ffurflen Dreth hon. Rhaid i gopi ardystiedig fod wedi ei lofnodi a'i ardystio i fod yn gopi cywir a chyflawn, ar bob tudalen, gan naill ai rhoddwr y pŵer, cyfreithiwr neu stocbrocer. Byddwn yn ei anfon yn ôl atoch cyn pen 15 diwrnod gwaith. Os oes gofyn i chi lenwi Ffurflen Dreth blwyddyn nesaf, yna byddwn yn anfon Ffurflen Dreth lawn atoch.

Anfonwch y Ffurflen Dreth wedi ei llenwi i:
Cyllid a Thollau EM
Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEM
HMRC
BX9 1ST

## Rhagor o gymorth os bydd ei angen arnoch

I gael copïau o unrhyw Ffurflenni Treth neu daflenni cymorth, ewch i www.gov.uk/ffurflenni-a-thaflenni-hunanasesiad

Gallwch ffonio Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEM ar 0300 200 1900 i gael help gyda'ch Ffurflen Dreth.

Arweiniad unig yw'r nodiadau hyn sy'n adlewyrchu'r sefyllfa ar adeg eu hysgrifennu. Nid ydynt yn effeithio ar yr hawl i apelio.